

# Cylchlythyr Fairbourne

## Mawrth 2017



Croeso i rifyn mis Mawrth o gylchlythyr Fairbourne: Symud Ymlaen. Ein bwriad yw cyhoeddi hwn ar sail chwarterol a'i ddsbarthu'n uniongyrchol i holl gartrefi/perchnogion tai er mwyn sicrhau bod gennych wybodaeth gyfredol ar holl faterion sy'n ymwneud a'r prosiect a gweithrediad y Cynllun Rheoli Traethlin yn Fairbourne.

Os nad ydych eisoes yn ymwybodol, gallwch hefyd gael mynediad i wybodaeth am y prosiect trwy'r ffyrdd canlynol:  
Pob dydd Gwener yng Nghaffi'r Rheilffordd o 10.30yb tan 1pm

- Trwy ein gwefan, [www.fairbourne.info](http://www.fairbourne.info)
- Trwy ein grŵp Facebook: Fairbourne Symud Ymlaen
- Dros y ffon: 01286 679591
- Trwy e-bost: [lisamarshall@gwynedd.llyw.cymru](mailto:lisamarshall@gwynedd.llyw.cymru)

Neu gallwch ysgrifennu atom i: YGC, Cyngor Gwynedd, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

### Cornel Fairbourne

Bu cyfarfod rhwng tîm y prosiect a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn nechrau mis Ionawr i drafod dyfodol Cornel Fairbourne. Fe'u darparwyd gyda'r canlyniad, yn dilyn arolwg drôn (a wnaed yn niwedd mis Tachwedd 2016) sy'n dangos bod y graean a roddwyd mewn lle gan CNC, bellach wedi symud o'r ardal yma ac o ganlyniad, nid oes unrhyw amddiffyniad yno.

Bu aelodau Tîm Prif Brosiect CNC mewn trafodaethau hir gydag aelodau technegol Fairbourne: Symud Ymlaen er mwyn cael dealltwriaeth lawn o'r hinsawdd tonnau (y ffordd mae'r tonau'n effeithio ar y gornel). Maent yn disgwyl yn eiddgar i weld gwaith modelu'r Grŵp Technegol Uwchgyllun i geisio canfod pa effaith fyddai cynyddiad lefelau dwr mor a daear yn ei gael ar ddyluniad yr amddiffyniad yn y dyfodol.

Dywedodd aelodau'r tîm prosiect CNC eu bod yn awyddus i ddechrau gwaith ar Gornel Fairbourne, ond bod oediad ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod dyluniad yr amddiffyniad yn gywir. Oherwydd bod sawl hinsawdd tonnau gwahanol yn cael effaith ar Gornel Fairbourne (yn bennaf o ganlyniad i gyfeiriad y gwynt pan fo'r llanw'n uchel), mae angen i CNC sicrhau bod yr amddiffyniad yn gallu gwrthsefyll pob math o drawiad yn yr ardal hon.

Bydd CNC yn darparu gwybodaeth am hyn pan fydd ar gael, fodd bynnag, gallwn eich sicrhau bydd yr amddiffyniad presennol eisoes yn amddiffyn rhag lefelau storm hyd at y 200 mlynedd nesaf. Yn y cyfamser, mae gan CNC raglen o arolygiad a chynhaliaeth ragweithiol er mwyn sicrhau bod unrhyw ardaloedd gwan a ddangosir yn cael eu rheoli'n unol a'r rhaglen.



### Ramp

Yn dilyn sgwrs gyda Barry Davies, Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, fe hysbysodd tîm y prosiect nad oes ganddo'r arian i drwsio'r ramp yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Mae'n teimlo y dylai pobl barhau i allu lansio eu cychod a chael mynediad at y traeth drwy ddefnyddio'r llithrfa bwrpasol ym Mhwynt Penrhyn.

Mae'n teimlo'n hyderus y bydd cyllid ar gael ar gyfer yr atgyweiriadau cyn i dymor yr Haf gychwyn ond mae hefyd angen dealltwriaeth bellach (boed yn bositif neu negyddol) o effaith y ramp ar arfordir Fairbourne, (ar hyn o bryd fe'i defnyddir fel grwyn ar gyfer graean o Gornel Fairbourne). Rydym wedi hysbysu Barry, CNC o'n bwriad i gynyddu'r amddiffyniad yng Nghornel Fairbourne a disgwylir i glywed pa syniadau sydd ganddo.

Mae'n gwerthfawrogi pryderon trigolion Fairbourne ond nid yw'n gallu gwneud dim ar hyn o bryd i wella'r sefyllfa.

Os oes gennych unrhyw bryderon cysylltwch gyda Barry'n uniongyrchol ar:

Ffôn: 1758 704066 neu e-bost: [barrydavies@gwynedd.llyw.cymru](mailto:barrydavies@gwynedd.llyw.cymru)



## Rhwystrau Tanc

Bu i dîm y prosiect gwrdd a Cadw ym mis Hydref y llynedd o ran y rhwystrau tanc. Nid oes gan Cadw unrhyw gynlluniau i'w symud ar hyn o bryd er ein bod wedi awgrymu efallai y dylent gael eu symud i ochr arall yr amddiffyniad môr er mwyn eu diogelu. Dywedodd Cadw y gellid ystyried hyn ond nid ar hyn o bryd. Bu i ni yrru lluniau o rai o'r rhwystrau tanc yn ddiweddar sy'n cael eu hystyried yn beryg oherwydd eu ansefydlogrwydd ac disgwylir am eu sylwadau. Rydym yn diweddarau CRC o'n holl gyfathrebiadau gyda Cadw.



## Grŵp Technegol/Uwchgynllun

Cynhaliwyd y Cyfarfod Technegol diwethaf ar ddydd Mawrth yr 21ain o Chwefror a gwnaed cynnydd mawr. Mae holl reolwyr rheoli risg perthnasol bellach yn cymryd rhan ac mae'r dasg ganddynt o gynhyrchu model a llinell amser ar gyfer risg llifogydd eu hunain erbyn diwedd mis Ebrill 2017 (e.e. risg lefel mor, activedd traeth, lefelau dwr daear, afonydd a glaw). Yn y cyfarfod nesaf, sydd wedi ei raglennu ar gyfer dechrau mis Mai, byddwn yn gweithio ar sut i gyfuno'r holl ddata i un fodel cyn i ni ei ryddhau i'r choedd. Ein bwriad yw gwneud hyn ym mis Mehefin 2017.

## Digwyddiad Llywodraethol

Cynhelir y digwyddiad yma yng Nghlwb Golff Fairbourne ar ddydd Mercher y 24ain o Fai 2017. Bydd hwn yn ddigwyddiad diwrnod cyfan a'r gobaith yw y bydd y Gweinidog, ynghyd ag uwch aelodau eraill Cyngor Gwynedd, Cynulliad Cymru a CNC yn mynychu. Bwriad y digwyddiad yw codi ymwybyddiaeth o brosiect Fairbourne ar lefel uchel, sicrhau ein bod yn denu'r lefel o sylw priodol fel bod gwybodaeth well wrth ddyrannu cyllideb yn ogystal â chyfrannu at ddeddfwriaeth tuag at y dyfodol wrth reoli effeithiau a pholisïau llifogydd yn y gymuned. Nid digwyddiad cyhoeddus yw hwn, fodd bynnag, byddwn yn gwahodd dau aelod o FFC, ACC a'r gymuned i gymryd rhan ar y diwrnod. Bydd hwn yn diweddarau aelodau ein Bwrdd Prosiect newydd wrth i ni gychwyn cam Uwchgynllun y prosiect.



## Digwyddiad busnes

Cynhaliwyd hwn ar ddydd Mawrth y 7fed o Chwefror o 6yh tan 8yh yng Nghaffi'r Rheilffordd. Mynychodd 8 perchennog busnes o'r pentref a bu'n ddigwyddiad cynhyrchiol iawn. Daethpwyd a nifer o awgrymiadau ymlaen gan berchnogion busnes ynglŷn â'r hyn y gallai'r prosiect ei wneud ymhellach i gefnogi busnesau yn Fairbourne - mae'r rhain bellach yn cael eu gweithredu. Rydym hefyd wedi darparu trosolwg o weithgareddau'r prosiect, a dywedodd y rhai a fynychodd bod hwn wedi bod yn ddigwyddiad gwerthfawr iawn a'u bod wedi dysgu rhywbeth newydd. Gwnaethpwyd cais y dylid cynnal y digwyddiadau hyn bob chwarter ac felly dyma beth wnawn ni o hyn ymlaen. (Cynhelir y digwyddiad busnes nesaf ar ddydd Mawrth 9fed Mai 2017, 6-8 pm yng Nghaffi'r Rheilffordd).





## Cwmni Buddiannau Cymunedol

Mae'r grŵp prosiect wedi cyflwyno cais i sefydlu Cwmni Buddiannau Cymunedol, yn hytrach na Chynllun Prynu i Osod. Byddai hyn yn golygu bod angen cyllid i sefydlu cwmni a fyddai'n prynu nifer cyfyngedig o dai pob blwyddyn, gyda'r bwriad o osod tenantiaid ynddynt a chasglu rhent yn unol â hynny (ac felly'n rhoi'r arian yma'n ôl i'r Cwmni Buddiannau Cymunedol). Byddai'r arian yma wedyn yn cael ei ail fuddsoddi drwy gynnal a chadw'r tai yma, ynghyd a rheoli tenantiaid - byddai rhywfaint o'r gweddillion yn cael ei ail-fuddsoddi yn y gymuned. Byddai sefydliadau lleol yn cael eu defnyddio i gyflawni'r drefn cynnal a chadw a gan hyn yn darparu elfen o fusnes ar gyfer masnachau lleol. Gallai tenantiaid amrywio o bobl hyn sydd angen Llety cysgodol, i deuluoedd ifanc, a byddant i gyd wedi eu rhwymo gan 'gytundeb tenantiaid da' a fyddai'n sicrhau bod eu hymddygiad yn dderbyniol yn ogystal â sicrhau bod eu cartref yn cael ei gadw mewn cyflwr da (y tu mewn a thu allan).

Byddai angen i holl breswylwyr sydd angen gwerthu eu cartref i'r Cwmni Buddiannau Cymunedol gynnal arolwg cyflwr eiddo er mwyn canfod os yw eu cartref yn cwrdd ag anghenion Safon Ansawdd Tai Cymru (safon a ddefnyddir ar gyfer tai cymdeithasol, ac sy'n rhaid ei gwrdd ar gyfer holl dai yng Nghymru). Byddai unrhyw addasiadau angenrheidiol i gyrraedd y safon yn cael ei wneud (a'i dalu) gan y Cwmni Buddiannau Cymunedol.

**Mae'n bwysig nodi na fyddai'r Cwmni Buddiannau Cymunedol yn cael ei redeg gan y prosiect na Chyngor Gwynedd - byddai'n cael ei redeg gan fwrdd a fyddai'n cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid ac aelodau'r gymuned.**

Mae'n fwrdd gennym i sefydlu cwmni yn y 12 mis nesaf (yn amodol ar dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru), a'r gobaith yw, **os bydd arian ar gael**, bydd y Cwmni Buddiannau Cymunedol ar waith erbyn Ebrill 2018.



## Y Ddogfen "Cwestiynau a Ofynnir yn Aml"

Penderfynwyd bod y ddogfen hon yn ffordd wastraffus o gyfathrebu gyda'r gymuned. Mae'r fersiwn Saesneg yn unig yn 60 tudalen o hyd bellach, ac wrth gwrs mae'n rhaid iddo fod yn ddwyieithog. Mae wedi dod yn dasg lafurus iawn i'n holl rhanddeiliaid yn ogystal â chwestiynau cymhleth gan y gymuned. Nid yw'r ddogfen o reidrwydd yn le cywir i ddarparu ymateb cymhleth i'r cwestiynau a ofynnir.

Mae'r ddogfen yn gyfredol ar hyn o bryd, ond teimlir (ynghyd a dulliau cyfathrebu eraill sydd gennym ar waith e.e. sesiynau galw i mewn yn wythnosol, Facebook, gwefan, mynediad uniongyrchol i'r prosiect trwy ffon neu e-bost, heb anghofio aelodau FFC ac ACC yn y gymuned a all trigolion gysylltu â hwy), byddai cyllideb y prosiect yn cael ei wario'n well ar faterion megis Uwchgyllun a digwyddiadau ymgysylltu, e.e. busnesau, y cyhoedd ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud a'r prosiect.

Bydd y ddogfen "Cwestiynau a Ofynnir yn Aml", yn ei fformat presennol, yn cael eu postio ar [www.fairbourne.info](http://www.fairbourne.info) ond ni chylchredir copi called. Os hoffech dderbyn copi caled, peidiwch ag oedi i gysylltu gyda thîm y prosiect drwy ddefnyddio un o'r dulliau ar dop y cylchlythyr hwn.

